PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2020

PWNC

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya

RHESYMAU:

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwyr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn: 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Caerfyrddin**	**E-bost:** CMoore@sirgar.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2020

DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cwblhau cau cyfrifon diwedd blwyddyn 2019/20
- Datblygu Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd
- Datblygu Polisi Risg a Chofrestr Risg
- Mae gwaith wedi parhau gyda'r cyfresi nesaf o is-gronfeydd a bydd mwy o wybodaeth am y rhain yn cael ei darparu yn niweddariad y Gweithredwr

Meysydd allweddol eraill:

- Cynllun Busnes – wrthi'n cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- Robeco – mae cyfarfodydd cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda Robeco ac mae gwaith yn parhau ar yr ochr Ymgysylltu, gan gynnwys datblygu porth. Mae'n debygol y bydd y Polisi Pleidleisio'n cael ei ddatblygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae sesiynau hyfforddiant rhithwir wrthi'n cael eu trefnu i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.
- Cynllun Hyfforddi – rydym yn anelu at gyflawni'r cynllun hyfforddi cymeradwy ar gyfer 2020/21, gyda digwyddiadau hyfforddiant rhithwir yn cael eu cynnal hyd y gellir rhagweld. Er mwyn hwyluso'r ffordd newydd hon o gyflawni hyfforddiant, gallai trefn y pynciau hyfforddi newid ychydig o'r cynllun gwreiddiol. Cafodd un sesiwn hyfforddiant rhithwir ei chwblhau ar 18 Mehefin 2020.
- Contract Ymgynghorydd Cyfreithiol – oherwydd COVID-19, mae'r broses dendro wedi cael ei gohirio. Mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn tan 31 Rhagfyr 2020 a bydd yr ymarfer caffael yn ailddechrau'n fuan.
- Benthyca Stoc – mae Northern Trust wedi darparu Adroddiad Adolygu Benthyca Gwarantau Byd-eang ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Mawrth 2020 a 30 Ebrill 2020. Adroddiad llawn ynghlwm.
- Mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddaru gyda newyddion a chyhoeddiadau perthnasol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Bydd dogfennau polisi a gweithdrefnau'n ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod y Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN**